

Adolygu'r arolwg o Bortffolio Celfyddydol Cymru

Yn sgil ein hymgyngoriad gyda sefydliadau PCC ym mis Mawrth 2018 am yr arolwg o'r Portffolio, dyma anfon atoch set lawn o gwestiynau wedi'i diweddarau a nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer arolwg 2019/20. Bydd y cwestiynau hyn yn berthnasol i'r arolwg ym mis Medi am y cyfnod **1 Ebrill 2019 hyd 30 Medi 2019** ymlaen.

Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad wedi awgrymu sawl ffordd o wneud yr arolwg yn fwy perthnasol a hawdd ei ddefnyddio i'r portffolio ac eraill. Rydym ni wedi gweithredu ar lawer o'r awgrymiadau i wella'r arolwg i bawb. Dyma rai o'r newidiadau:

- Darlledu a ffrydio wedi newid i: Ar-lein a darllediadau
- Gwasanaethau i'r celfyddydau wedi newid i: Gwasanaethau i'r Sector a'r gymdeithas ehangach
- Ffilm – rydym ni wedi gwneud nifer o welliannau yn y cwestiynau ffilm am ffilmiau sydd wedi'u cynhyrchu yng Nghymru
- Diweddariadau i'r cwestiynau presennol
- Nodiadau arweiniol cliriach
- Templed llenwi'r arolwg

Adran Ar-lein a darllediadau

Yn ychwanegol at y cwestiynau am ddarllediadau eich sefydliadau, rydym ni wedi cynnwys cwestiynau am eich gwefan a'ch llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Dylai'r adran yma fod yn berthnasol i bob sefydliad.

Gwasanaethau i'r Sector a'r gymdeithas ehangach

Mae'r adran yma'n ymgorffori rhai o'r cwestiynau o'r hen adran Gwasanaethau i Sector y Celfyddydau – dylen nhw fod yn berthnasol i bob sefydliad. Mae adran 1 yn canolbwyntio ar:

- hyfforddiant a datblygiad (i'r rhai sy'n gweithio yn y celfyddydau)
- sefydliadau sy'n denantiaid
- preswylfeydd i artistiaid
- eich gwirfoddolwyr

Mae adran 2 yn gofyn am:

- sesiynau holi ac ateb a sgysiau rydych chi'n eu trefnu
- prosiectau celfyddydol sy'n gymdeithasol ymgysylltiedig
- gwaith targedol gyda grwpiau penodol yn y gymuned, er enghraifft y celfyddydau ac iechyd

Ffilm

Y prif ddiwygiadau i'r adran yma yw'r cwestiynau am ffilmiau sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru. Ni fyddwn ni bellach yn gofyn ichi am y wybodaeth yma. Yn hytrach, byddwn ni'n gofyn am deitlau'r ffilmiau rydych chi wedi eu sgrinio a'r wybodaeth berthnasol (sgriniadau a mynychuadau). Wedyn, y ni fydd yn nodi pa ffilmiau sy'n dod o Gymru (gyda help ein cydweithwyr yn Ffilm Cymru) yn ystod ein dadansoddiad.

Diweddaru'r cwestiynau presennol

Mae rhai o'r newidiadau yn gyffredin i bob adran, gan gynnwys:

1) Dewisiadau iaith – erbyn hyn mae rhain yn cynnwys:

- Cymraeg
- Saesneg
- Dwyieithog
- Amlieithog
- Arall
- iaith amherthnasol

Am ddiffiniad o'r categorïau, gweler y Canllawiau Cyffredinol.

2) Nid ydym ni'n gofyn bellach am fynychiadau mewn digwyddiadau sy'n targedu pobl â nodweddion gwarchoddedig; rydym ni o hyd yn gofyn am nifer y digwyddiadau sy'n targedu pob nodwedd

3) Rydym yn gofyn os wnaeth unrhyw gweithgaredd rydych chi wedi cynnwys dargedu neu ymgysylltu efo:

- Celfyddydau a lechyd
- Pobl Ddigartref
- Teuluoedd ar incwm isel
- Ffoaduriaid a Cheswyr lloches
- Cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg (NEETs yn Saesneg)

4) Rydym ni wedi ychwanegu cwestiwn penagored ar ddiwedd pob adran sy'n gyfle ichi nodi cyrhaeddiad ac effaith eich gweithgarwch

5) Codau post gweithgarwch – mewn rhai adrannau, rydym ni'n gofyn am godau post eich gweithgarwch

Mae rhai newidiadau yn benodol i adran. Maen nhw'n cael eu nodi yn Nodiadau'r Canllawiau.

Mae hefyd rai opsiynau ychwanegol ym mhob adran ichi ychwanegu:

- data cod post i allu gweld cyrhaeddiad ein portffolio
- naratif gyda'ch data Cyrhaeddiad ac Effaith

Ni fyddwn ni'n cynnwys y rhain yn ein hadroddiadau o ystadegau swyddogol, ond mae'n bosibl y byddwn ni'n defnyddio mewn cyhoeddiadau eiriol.

Nodiadau'r Canllawiau

Roedd llawer o'r adborth o'r ymgynghoriad yn gofyn am nodiadau cliriach.

Nawr mae gennym 2 set o nodiadau:

- Nodiadau'r Canllawiau i bob adran unigol
- Canllawiau Cyffredinol sy'n sôn am yr arolwg yn gyffredinol

Templed llenwi arolwg newydd

Gyda'r e-bost yma mae templed excel newydd. Yn y templed mae pob cwestiwn yn yr arolwg, yn nhrefn yr adran. Arno byddwch chi'n gallu uwchlwytho eich data fesul prosiect. Dylech chi ddefnyddio'r templed am y bydd yn cadw cyfanswm treigl o'ch prosiectau gan ychwanegu at ffigyrau'r rhai sydd yno'n barod. Ar ddiwedd y chwe mis bydd gennych set ddata gyflawn i'w chyflwyno inni. Fel arall, byddwch chi'n gallu defnyddio'r llwyfan ar-lein presennol drwy fewngofnodi ar ein gwefan.

Bydd hanner cyntaf yr arolwg yn casglu data o 1 Ebrill tan 30 Medi, a'r ail hanner yn casglu data o 1 Hydref tan 31 Mawrth. Byddwch yn derbyn ebost ym mis Medi (hanner cyntaf) ac Mis Mawrth (ail hanner) yn hatgoffa chi i cyflwyno eich Templed Excel I ni drwy ebost.

Cofiwch arbed eich templed Excel wrth ichi fynd. Yr unig gopïau rydym ni'n eu cadw yw'r rhai sy'n cael eu hafnon inni ym misoedd Mawrth a Medi.

Gydag unrhyw gwestiynau am y newidiadau neu am help llenwi eich ffurflen, cysylltwch â ni: ymchwil@celf.cymru neu ffoniwch 02920 441375

Diolch yn fawr ichi

Y Tîm Ymchwil